| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 CHWEFROR 2026** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2025/26** |
| **Deilydd Portffolio:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BethanOwen2@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellion**

**(i)** Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26, y manylir arnynt yn Atodiad CH;
**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD;

**Rheswm**

Mae'r sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y trydydd chwarter yn awgrymu y bydd tanwariant o £1,865k (0.95%) yn y gyllideb refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 31 Rhagfyr 2025. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhoi hefyd. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 3 yn rhoi mwy o sicrwydd i ni, o gymharu â'r rhagolygon blaenorol ar ddiwedd chwarteri 1 a 2, gan fod y rhagolwg hwn wedi'i seilio ar incwm a gwariant gwirioneddol dros gyfnod o 9 mis. Er hynny, mae'n parhau i fod yn anodd darogan y sefyllfa mewn rhai meysydd allweddol, gan olygu y gallai'r sefyllfa derfynol fod yn wahanol i'r rhagolwg hwn. Y meysydd allweddol yw:-

1. Newid yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, yn bennaf lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg allsirol.
2. Derbyn cyllid grant ychwanegol yn ystod y chwarter olaf.
3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld.
4. Anawsterau recriwtio a chadw staff, sy'n arwain at fwy na'r disgwyl o swyddi gweigion.
5. Tywydd annisgwyl / anarferol.

O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £17.57m (9.0% o gyllideb refeniw net 2025/26) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £7.8m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell i'r Cyngor.

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi, ond mae unrhyw newidiadau o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad.

**DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?** | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill, i lunio'r cynllun ariannol tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 2 | **A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?** | Amherthnasol |
| 3 | **A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.** | Amherthnasol |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.** | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2025/26 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Amherthnasol |
| 6 | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Amherthnasol |
| 7 | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Amherthnasol |

| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Rhannwyd copi drafft o'r adroddiad gydag aelodau'r TA ac mae'r adroddiad terfynol yn ymgorffori unrhyw sylwadau a dderbyniwyd. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 2 yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2025. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2025/26
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2025/26
- Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rhesymau
- Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2025/26
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2025/26
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro ymgynghorwyr 2025/26
- Atodiad E - Cost Newidiadau 2025/26

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2025/26 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 27 Chwefror 2025 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2025)

**ATODIAD A**

**ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3 2025/26**

## 1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWYD AR GYFER 2025/26

**1.1** Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2025/26**

| | £'000 | £'000 |
|---|---:|---:|
| Cyfanswm Gwariant Refeniw a Gymeradwywyd | | |
| Diwygiadau i'r Gyllideb ers Cymeradwyaeth | 195,442 | |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor | (2,459) | |
| Cyllideb Gymeradwy Gyfredol ar gyfer 2025/26 (Net o gronfeydd wrth gefn) | | **192,983** |
| **Cyllidir gan** | 135,881 | |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) | 52,843 | |
| Debyd Dreth Gyngor Safonol a Godwyd | 4,259 | |
| Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag | | |
| | | **192,983** |

## 2. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER Y GYLLIDEB AR DDIWEDD CHWARTER 3 2025/26

**2.1** Mae amcangyfrif o'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd chwarter 3 wedi'i gynnwys yn Nhabl 2, isod:-

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar ddiwedd Chwarter 3**

| | Cyllideb 2025/26 £'000 | Rhagolwg Ch 3 (Tan) / Gorwariant £'000 | % Amrywiant % | Rhagolwg Ch 2 (Tan) / Gorwariant £'000 | Symudiad £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Cyllidebau Gwasanaeth | 178,958 | 463 | 0.26 | 403 | 60 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 16,484 | (1,267) | (7.59) | (1,055) | (212) |
| Cronfeydd Cyffredinol | (2,459) | 0 | 0.00 | 0 | 0 |
| **Gwariant Refeniw Net** | **192,983** | **(804)** | **(0.41)** | **(652)** | **(152)** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) | 135,881 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor Safonol | 52,843 | (483) | (0.91) | (564) | 81 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | 4,259 | (578) | (13.57) | (491) | (87) |
| **Cyllid Net** | **192,983** | **(1,061)** | **(0.54)** | **(1,055)** | **(6)** |
| | | | | | |
| **Rhagolwg o'r (Tan) / Gor Wariant Net** | **0** | **(1,865)** | **(0.95)** | **(1,707)** | **(158)** |

**2.2** Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cygnor i'w weld yn Nhabl 3, isod:-

**Tabl 3**
**Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026**

| | **Swm £'m** | **Pwrpas** |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | (18,166) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2025 |
| Cyllid ar gyfer Cyllideb 2025/26 | 2,459 | |
| Y Sefyllfa a Ragwelir 2025/26 | (1,865) | Yn unol â Thabl 2, uchod |
| **Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026** | **17,572** | |

**3.** **PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH**

**3.1** Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod gorwariant o £0.363m yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Nhabl 4, isod:-

**Tabl 4**
**Dadansoddiad o'r Sefyllfa a Ragwelir ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth**

| **Gwasanaeth** | **(Tan) / Gorwariant £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (189) | (3.49) |
| Gwasanaethau Oedolion | (1,246) | (2.91) |
| Gwasanaethau Plant | 1,625 | 9.26 |
| Tai | (182) | (9.01) |
| Datblygu Economaidd, Hamdden a Morwrol | (113) | (3.43) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 172 | 5.59 |
| Priffyrdd | (244) | (2.89) |
| Busnes y Cyngor | 262 | 11.72 |
| Trawsnewid | (451) | (5.79) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau, Darpariaeth ar gyfer Drwg Ddyledion) | 600 | - |
| Gwasanaethau Eraill (Amrywiadau o dan £100k) | 181 | 0.21 |
| **Cyfanswm Amrywiadau Gwasanaeth** | **463** | **0.26** |

**3.2** Mae gorwariant sylweddol mewn tri gwasanaeth. Rhagwelir gorwariant o £1,625k yn y Gwasanaethau Plant, oherwydd costau lleoliadau sy'n parhau i gynyddu, ynghyd â chynnydd yn nifer y plant mewn gofal. Rhagwelir gorwariant o £172k yn y gwasanaeth Cynllunio, yn bennaf oherwydd problemau staffio yn y tîm Rheolaeth Adeiladu. Bu'n rhaid cyflogi staff ychwanegol ac mae hyn wedi effeithio ar yr incwm a gynhyrchwyd. Rhagwelir gorwariant hefyd o £262k yn y swyddogaeth Busnes y Cyngor oherwydd bod problemau recriwtio'n golygu fod rhaid cyflogi cyfreithwyr locwm i lenwi swyddi.

**3.3** Y prif wasanaethau sy'n tanwario yw'r Gwasanaethau Oedolion, Addysg Ganolog a TGCh. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi manteisio ar nifer o ddigwyddiadau unwaith ac am byth sydd naill ai wedi cynyddu incwm neu leihau costau. Cyfanswm y digwyddiadau unwaith ac am byth hyn yw £2.4m a, phe baent yn cael eu diystyru, byddai'r gwasanaeth yn wynebu gorwariant o £1.2m.

**3.4** Mae'r tanwariant a ragwelir ar gyfer Addysg Ganolog wedi lleihau o £258k yn chwarter 2 i £189k ar ddiwedd chwarter 3. Y prif reswm am y newid yn y tanwariant yw bod y cyllid grant ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Bawb wedi cynyddu ac mae llai o alw am brydau ysgol ond mae hyn yn cael ei gydbwyso gan gynnydd yn y cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

**3.5** Nifer o swyddi gweigion ar ddechrau'r flwyddyn sydd i gyfrif yn bennaf am y tanwariant yn y gwasanaeth TGCh, ac mae nifer fechan o swyddi'n parhau i fod yn wag, gan ychwanegu at y tanwariant a ragwelir.

**3.6** Mae'r prif resymau am y gwahaniaethau'n cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

**Tabl 5**
**Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm**

| | **Amrywiant a Ragwelir £'000** |
|---|---:|
| Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau | 3,247 |
| Amrywiant mewn costau staffio oherwydd swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth | (871) |
| Newidiadau mewn prisiau contractau nad oedd y gyllideb a gymeradwywyd yn darparu ar eu cyfer | (99) |
| Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd | (1,020) |
| Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm | (1,956) |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau | (294) |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol | 23 |
| Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol | 431 |
| Camgymeriadau amlwg yn y broses gosod cyllideb | 20 |
| Rhesymau amrywiol | 982 |
| **CYFANSWM YR AMRYWIANT A RAGWELIR** | **463** |

**3.7** Mae'r tabl uchod yn amlygu mai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n parhau i greu'r prif bwysau ar gyllideb y Cyngor, ac mae'n gyfrifol am werth £3.247m o bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Y Gwasanaethau Oedolion a Phlant sy'n profi'r pwysau mwyaf ar y galw. Mae'r pwysau hwn yn cael ei wrthbwyso gan gyllid grant ac incwm ffioedd ychwanegol sydd £1.956m yn uwch na'r gyllideb. Mae swyddi gweigion yn y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth TG hefyd yn lleihau gwariant ac mae hynny'n lliniaru'r pwysau ariannol yn sgil y galw am wasanaethau.

## 4 PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

**4.1** Dangosir y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn Nhabl 6, isod:-

**Tabl 6**
**Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2025/26**

| | Cyllideb 2025/26 £'000 | Rhagolwg o'r (Tan) / Gorwariant Ch 3 £'000 | Amrywiant % | Rheswm am yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Ardollau | 5,276 | 0 | 0.00 | |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 106 | 68 | 64.12 | Nifer uwch o geisiadau. |
| Cyllido Cyfalaf | 4,637 | (1,482) | (31.96) | Costau llog is oherwydd llai o fenthyca na'r disgwyl. Enillion uwch ar fuddsoddiadau gan fod cyfraddau llog wedi aros yn uchel. |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 7,459 | 41 | 0.55 | Cynnydd disgwyliedig oherwydd bod lefelau diweithdra yn codi |
| Ail-godi tâl ar y CRT am Wasanaethau Cefnogi | (840) | 84 | 10.00 | Costau îs gwasanaethau canolog oherwydd swyddi gweigion |
| Arbedion i'w Gwneud | (22) | 22 | 100.00 | |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 822 | 0 | 0 | |
| Defnyddio Cronfeydd Cyffredinol | (2,459) | 0 | 0 | |
| **CYFANSWM** | **14,979** | **(1,267)** | **(7.59)** | |

## 5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

**5.1** Mae cyllideb Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2024. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd a fu, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Fel arfer, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a gostyngiadau sy'n ddyledus iddynt. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £483k yn uwch na'r gyllideb, ac mae hyn £81k yn is na'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 2.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Newidiwyd y rheolau ynghylch pwy sy'n gymwys i dalu trethi busnes ar lety hunan arlwyo ac mae nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor o ganlyniad i hyn. Mae hyn yn golygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi. O ganlyniad, rhagwelir gwarged o £578k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef £87k yn uwch na rhagolwg chwarter 2. Fodd bynnag, mae risg sylweddol y bydd apeliadau'n cael eu penderfynu yn 2025/26 mewn perthynas ag eiddo hunanarlwyo a drosglwyddwyd o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2024/25. Er mwyn gwrthbwyso'r risg hwn, rhoddwyd £900k mewn cronfa wrth gefn glustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 fydd yn cael ei ddefnyddio i ad-dalu treth gyngor os bydd angen ar ddiwedd y broses apelio.

## 6. CYLLIDEBAU WRTH GEFN

**6.1** Cyfanswm gwreiddiol y cyllidebau wrth gefn oedd £586k, ac roedd yn cynnwys grant gwerth £2m ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Mae'r trosglwyddiadau net i gyllidebau gwasanaeth a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn clustnodedig ac ohonynt wedi cynyddu'r gyllideb i £2.080m ar ddiwedd chwarter 3 (heb gynnwys y grant yswiriant gwladol). Ar hyn o bryd ystyrir bod y gyllideb gyfan wedi'i hymrwymo, er bod ansicrwydd ynglŷn â faint o'r symiau sy'n weddill yn y gyllideb wrth gefn gyffredinol a'r gyllideb wrth gefn ar gyfer tâl a graddio fydd angen ei ddefnyddio yn ystod y chwarter olaf. Bydd unrhyw falans sydd heb gael ei ddefnyddio yn y cronfeydd yma yn cyfrannu at y sefyllfa net gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. gallai gynyddu'r tanwariant. Bydd unrhyw danwario ar gyllidebau wrth gefn eraill yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn clustnodedig penodol, gweler Atodiad CH.

## 7. COSTAU ASIANTAETH AC YMGYNGHORWYR

**7.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £1,298k ar staff Asiantaeth, a'r gwasanaeth Gwastraff oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwariant er mwyn cyflogi staff i weithio yn y canolfannau ailgylchu, y Gwasanaethau Oedolion er mwyn cyflogi staff llanw mewn cartrefi preswyl, cyflogi staff asiantaeth i lenwi swyddi gweigion o fewn Busnes y Cyngor ac yn Adnoddau i lenwi swyddi gweigion a gwneud gwaith ychwanegol.

**7.2** Mae'n rhaid defnyddio staff asiantaeth mewn canolfannau ailgylchu a chartrefi preswyl i sicrhau parhad gwasanaeth ac mae'r costau'n cael eu cyllido o gyllidebau craidd. Mae defnyddio staff asiantaeth yn hanfodol bellach yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ac o fewn Caffael oherwydd problemau recriwtio, ac mae'r costau'n cael eu cyllido o gyllidebau staffio cyfredol a chronfeydd wrth gefn. Defnyddiwyd staff adennill ychwanegol i ddelio â'r dyledion sydd heb eu casglu a bydd hyn yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor fydd yn talu am gostau'r staff asiantaeth.

**7.3** Gwariwyd cyfanswm o £805k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2025, ac roedd £449k o'r gwariant hwnnw wedi'i gyllido gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth.

## 8. CRONFA COSTAU NEWIDIADAU

**8.1** Gwariwyd £72k hyd yma ar brosiectau unigol oedd i'w cyllido o'r Gronfa Cost Newidiad, a gwariwyd £26k yn ystod 2025/26. Cytunwyd ar bum prosiect yn 2024/25, a chyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiectau yw £107k. Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad E. Mae 2 brosiect arall wedi cael eu cymeradwyo yn 2025/26, a chyfanswm y gost yw £188k. Mae hyn yn golygu fod £105k yn weddill yn y gronfa sydd heb gael ei ymrwymo.

## 9. CASGLIADAU

**9.1** Y sefyllfa diwedd blwyddyn a ragwelir ar ddiwedd y trydydd chwarter yw tanwariant o £2.730m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026. Er bod risg sylweddol yn parhau y gallai'r swm newid yn ystod y chwarter olaf, wrth roi cyfrif am effaith dau fis diwethaf y gaeaf, ynghyd ag unrhyw ddigwyddiadau sylweddol sy'n effeithio ar incwm neu wariant a allai ddigwydd yn ystod y chwarter olaf.

**9.2** Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn creu pryder arbennig, a rhagwelir gorwariant o £1.625m yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae'r galw'n amrywio yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel sydd ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n golygu fod y sefyllfa'n gwaethygu.

**9.3** Er bod y rhagolwg ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn dangos tanwariant o £1.246m, mae nifer o ffactorau unwaith ac am byth yn helpu'r sefyllfa. Ar ôl diystyru'r ffactorau hyn, y sefyllfa wirioneddol yw gorwariant o £1.2m.

**9.4** Mae sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn iach, ac mae'r tanwariant yn cyfrannu at gynnydd yng nghronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor. Mae hyn, unwaith eto, yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio arian wrth gefn i gynorthwyo i gydbwyso cyllideb 2026/27, ac mae'n parhau i fod yn opsiwn ar gyfer 2027/28.

**ATODIAD B**

**RHAGOLWG O'R ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2026 - CHWARTER 3**

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget £'000 | Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026 £'000 | Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under) £'000 | 2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget % | Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast £'000 | Newid ers Ch2 Movement since Q2 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**<br>***Education, Skills and Young People*** | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion<br>*Delegated Schools Budget* | 64,478 | 64,478 | 0 | 0.00 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog<br>*Central Education* | 5,408 | 5,219 | (189) | (3.49) | (232) | 43 |
| Diwylliant<br>*Culture* | 1,646 | 1,738 | 92 | 5.59 | 100 | (8) |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion**<br>***Adult Services*** | 42,787 | 41,341 | (1,246) | (2.91) | (932) | (314) |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant**<br>***Children's Services*** | 17,545 | 19,170 | 1,625 | 9.26 | 1,350 | 275 |
| | | | | | | |
| **Tai**<br>***Housing*** | 2,020 | 1,838 | (182) | (9.01) | (217) | 35 |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff**<br>***Highways, Property & Waste*** | | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 8,450 | 8,206 | (244) | (2.89) | (274) | 30 |
| Eiddo<br>*Property* | 1,822 | 1,920 | 98 | 5.38 | (96) | 194 |
| Gwastraff<br>*Waste* | 10,379 | 10,439 | 60 | 0.58 | 25 | 35 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026 | Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under) | 2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget | Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast | Newid ers Ch2 Movement since Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 3,087 | 2,974 | (113) | (3.43) | (91) | (22) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 3,079 | 3,251 | 172 | 5.59 | 317 | (145) |
| | | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,596 | 1,585 | (11) | (0.69) | (7) | (4) |
| TGCh<br>*ICT* | 5,072 | 4,669 | (403) | (7.95) | (263) | (140) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 1,124 | 1,087 | (37) | (3.29) | (4) | (33) |
| | | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 4,165 | 4,175 | 10 | 0.24 | 5 | 5 |
| | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 2,236 | 2,498 | 262 | 11.72 | 254 | 8 |
| | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 2,981 | 2,966 | (15) | (0.50) | (27) | 12 |
| | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 873 | 857 | (16) | (1.83) | (5) | (11) |
| | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026 | Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under) | 2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget | Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast | Newid ers Ch2 Movement since Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau heb gyllideb ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau<br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income* | 0 | 600 | 600 | - | 500 | 100 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth**<br>**Total Service Budgets** | **178,746** | **179,209** | **463** | **0.26** | **403** | **60** |
| | | | | | | |
| Ardollau<br>*Levies* | 5,277 | 5,277 | - | 0.00 | 0 | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 106 | 174 | 68 | 64.12 | 69 | (1) |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 4,637 | 3,155 | (1,482) | (31.96) | (1,022) | (460) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 80 | 80 | - | 0.00 | 0 | 0 |
| Arbedion Cyllideb i'w Cyflawni<br>*Budget Savings to be Achieved* | (22) | 0 | 22 | 100.00 | 0 | 22 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor<br>*Council's General Reserves* | (2,460) | (2,460) | - | 0.00 | 0 | 0 |
| Cyfraniad gan y CRT am Wasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (840) | (756) | 84 | 10.00 | 0 | 84 |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 7,459 | 7,500 | 41 | 0.55 | (102) | 143 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol**<br>***Total Corporate Finance*** | **14,237** | **12,970** | **(1,267)** | **(7.59)** | **(1,055)** | **(212)** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2025/26 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | Amcangyfrif o Wariant hyd at 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026 | Ch3 : Q3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under) | 2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under)spend as a % of Total Budget | Gor /(Tan)wariant – Amcangyfrif Ch2 Over/(Under)spend Q2 Forecast | Newid ers Ch2 Movement since Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm 2025/26**<br>***Total 2025/26*** | **192,983** | **192,179** | **(804)** | **(0.41)** | **(652)** | **(152)** |
| | | | | | | |
| **<u>Cyllido</u>**<br>***<u>Funding</u>*** | | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (25,097) | (25,097) | 0 | 0.00 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (52,843) | (53,326) | (483) | (0.91) | (564) | 81 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (4,259) | (4,837) | (578) | (13.57) | (491) | (87) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (110,784) | (110,784) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2025/26**<br>***Total Funding 2025/26*** | **(192,983)** | **(194,044)** | **(1,061)** | **(0.54)** | **(1,055)** | **(6)** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith cyllido**<br>***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **(1,865)** | **(1,865)** | **(0.95)** | **(1,707)** | **(158)** |

**ATODIAD C**

# DADANSODDIAD O’R AMRYWIANT A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A’R RHESYMAU

| Gwasanaeth | Iswasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
